## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

| Teitl y cynnig: | **Diwygio Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i alluogi pob gweithiwr chwarae a gofal plant sy'n gweithio yn y sector gofal plant i gael eu trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol.** |
|---|---|

### 1. Amcanion y polisi

- Effaith pa benderfyniad ydych chi'n ei asesu?

Diwygiad arfaethedig i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i sicrhau bod yr holl weithwyr gofal plant a chwarae yn cael eu cydnabod fel gweithwyr gofal cymdeithasol ac felly'n elwa o gymorth arbenigol gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

### 2. Casglu tystiolaeth a gweithio gyda phlant a phobl ifanc

- Pa ymchwil a data presennol am blant a phobl ifanc sydd ar gael i lywio eich polisi penodol? Gall eich amcan polisi effeithio ar feysydd polisi eraill – bydd trafodaethau â thimau polisi eraill yn rhan bwysig o'r broses asesu effaith gan sicrhau eich bod chi wedi casglu amrywiaeth o wybodaeth a thystiolaeth.

- Gan ddefnyddio'r ymchwil hwn, sut ydych chi'n rhagweld y bydd eich polisi'n effeithio ar wahanol grwpiau[1] o blant a phobl ifanc, yn gadarnhaol ac yn negyddol? Cofiwch fod polisïau sy'n canolbwyntio ar oedolion yn gallu effeithio ar blant a phobl ifanc hefyd.

- Pa waith cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc ydych chi wedi ei ddefnyddio fel sail i'ch polisi? Os nad ydych chi wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, esboniwch pam.[2]

---

[1] Er enghraifft, mae'n bosibl y byddwch yn ystyried sut byddai eich polisi'n effeithio ar y grwpiau a ganlyn o blant a phobl ifanc yn wahanol: y blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd, oedolion ifanc; plant ag anghenion dysgu ychwanegol; plant anabl; plant sy'n byw mewn tlodi; plant Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig; Sipsiwn, Roma a Theithwyr; mudwyr; ceiswyr lloches; ffoaduriaid; siaradwyr Cymraeg; plant sydd â phrofiad o ofal; plant Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol. Sylwch nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr, ac ni fydd un profiad unffurf o fewn y carfannau hyn.

[2] Mae Erthygl 12 CCUHP yn nodi bod gan blant hawl i fynegi eu barn, yn enwedig pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried.

Mae'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yn darparu swyddogaeth hanfodol yn ein cymdeithas[3], gan gynnig manteision cymdeithasol, economaidd ac addysgol allweddol i blant a theuluoedd a bodloni nifer o agendâu polisi. Mae'r rhain yn cynnwys darparu sylfaen ar gyfer datblygiad ac addysg plant, gan gynnwys ymyrraeth gynnar ar gyfer anghenion iaith neu anghenion arbennig; cefnogi cyflogaeth rhieni; cyfrannu at lesiant teuluoedd; a mynd i'r afael â materion cymdeithasol ehangach fel cydraddoldeb, cynhwysiant, symudedd cymdeithasol a chydlyniant cymdeithasol.

Rydym am i blant o bob cefndir yng Nghymru gael y dechrau gorau mewn bywyd. Mae'r rheini sy'n gofalu am ein plant yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o'n helpu i gyflawni'r weledigaeth hon a nodir yn ein cynllun gweithlu 10 mlynedd ar gyfer gofal plant a'n cynllun gweithlu blynyddoedd cynnar[4] – i gefnogi a datblygu gweithlu medrus iawn sy'n cael ei ystyried yn broffesiwn ac yn yrfa o ddewis.

Gall addysg gynnar a gofal plant[5] o ansawdd uchel gael effaith hirdymor gadarnhaol ar addysg a chyflawniadau diweddarach plant. Ansawdd yw'r allwedd i'r effaith gadarnhaol honno, ac mae staff sydd â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol yn elfen hanfodol o'r ansawdd hwnnw. Gwyddom fod dysgu'n dechrau o enedigaeth, a bod gan addysg a gofal cynnar o ansawdd uchel y potensial i gael effaith bwysig a chadarnhaol ar addysg, datblygiad a llesiant plant, yn eu bywydau bob dydd ac yn y tymor hwy. Mae meithrin sgiliau sy'n cael eu darparu gan weithlu o ansawdd uchel yn hanfodol ar gyfer cyfleoedd a chodi dyheadau

Mae ymarferwyr medrus, cefnogol a chymwysedig yn elfen allweddol o addysg gynnar a gofal o ansawdd uchel ac maent yn gwneud gwahaniaeth amlwg i addysg a datblygiad plant, yn enwedig ar gyfer plant o deuluoedd incwm isel a theuluoedd sydd mewn perygl[6].

Mae ymchwilwyr ac ymarferwyr yn tueddu i gytuno bod gweithlu cymwys iawn yn hanfodol ar gyfer darpariaeth o ansawdd uchel. Roedd plant a oedd wedi cael gofal o ansawdd uchel gyda staff medrus a gofalgar yn dechrau yn yr ysgol, ar gyfartaledd, dri mis ar y blaen o ran llythrennedd ac iaith, 20 y cant yn fwy tebygol o wneud yn well ar eu TGAU, ac ennill mwy o arian fel oedolion na'r rhai mewn lleoliadau o ansawdd isel[7].

Mae gwaith ymchwil[8] hefyd yn cysylltu gofal cynnar o ansawdd uchel â chanlyniadau cadarnhaol i blant, gan gynnwys bod yn barod ar gyfer yr ysgol, gwario llai ar addysg adferol, ymddygiad cymdeithasol cadarnhaol ac ennill mwy yn ystod eu hoes. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer plant o aelwydydd incwm isel ac ar gyfer plant sy'n dysgu dwy iaith.

---

[3] Early-Years-Impact-Brief.pdf (suttontrust.com)

[4] Cynllun gweithlu gofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar | LLYW.CYMRU

[5] FINAL REPORT draft v2.8 (publishing.service.gov.uk)

[6] Early Years Workforce Review - Sutton Trust

[7] Analysis - Developing the early years workforce (epi.org.uk)

[8] Building a Qualified and Supported Early Care and Education Workforce (ncsl.org)

Mae'n dangos bod perthnasoedd cadarnhaol rhwng plant ifanc a'u gofalwyr yn hanfodol ar gyfer cefnogi datblygiad cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol iach. Er mai rhieni sy'n chwarae'r rôl fwyaf hanfodol o ran cefnogi datblygiad eu plentyn, rhaid i'r rhan fwyaf o deuluoedd hefyd ymddiried yn y gofal a roddir i'w plant gan ddarparwyr gofal cynnar ac addysgwyr tra byddan nhw'n y gwaith.

Mae'r dystiolaeth felly'n dangos bod mynediad at ofal plant a chwarae o ansawdd uchel yn fuddiol i bob plentyn yn ystod y blynyddoedd cynnar[9]. Gall chwarae rhan bwysig yn y gwaith o fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad, o ran datblygu eu sgiliau cymdeithasol a chefnogi plant i baratoi ar gyfer yr ysgol. Felly, bydd unrhyw symudiad yn ôl mewn perthynas â chefnogi datblygiad y gweithlu yn cael effaith ar ddatblygiad plant a'u parodrwydd ar gyfer mynd i'r ysgol.

Rydym hefyd yn gwybod bod cefnogi plant yn ystod y blynyddoedd cynnar yn ymyriad allweddol i liniaru'r risg o unrhyw effeithiau hirdymor Covid 19[10], y mae tystiolaeth yn cadarnhau y gall fod yn niweidiol iawn ac yn bellgyrhaeddol. Roedd hwn yn gyfnod anodd iawn i blant ac mae'r effaith ar eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a'u hiechyd meddwl yn ystod y cyfnod hollbwysig hwn yn eu bywydau wedi bod yn aruthrol. Bydd cefnogi datblygiad y gweithlu a'u hiechyd a'u llesiant[11] hefyd yn hyrwyddo llesiant plant.

Mae cryn dystiolaeth hefyd o bwysigrwydd chwarae[12] mewn perthynas ag iechyd a llesiant plant:

*Mae darpariaeth gwaith chwarae yn cyfrannu at gymunedau cryfach sy'n fwy cyfeillgar i chwarae ac sy'n cael effaith bellgyrhaeddol ar blant, pobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion. Chwarae yw'r ffordd mae plant yn adeiladu rhwydweithiau cymdeithasol ac yn creu cysylltiadau cadarnhaol â phobl a lleoedd yn eu cymunedau*

Mae'r dystiolaeth uchod yn dangos pam mae gofal plant a chwarae o ansawdd uchel mor hanfodol ar gyfer datblygiad plant. Ni fydd diwygiadau i ddeddfwriaeth RISCA yn effeithio'n uniongyrchol ar brofiadau presennol plant o ofal plant a chwarae, ond bydd y diwygiadau'n cryfhau'r gefnogaeth y bydd GCC yn ei chynnig i'r sector cyfan.

Nid oedd plant a phobl ifanc yn rhan uniongyrchol o'r cynnig oherwydd oedran plant a phobl ifanc sy'n derbyn gwasanaethau gofal plant a gwaith chwarae, ac am na fydd effaith fawr ar eu profiadau o ofal plant a chwarae (ond byddant yn elwa'n uniongyrchol). Nod y cynnig yw creu gweithlu mwy medrus i gefnogi a meithrin plant. Bydd yr effaith fwyaf ar y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae presennol ac yn y dyfodol.

---

[9] https://www.eif.org.uk/blog/early-years-education-what-does-high-quality-provision-look-like

[10] cwpe2023.pdf (cam.ac.uk)

[11] Adnoddau Llesiant ar gyfer Gweithwyr Gofal yn y Coronafeirws | Gofal Cymdeithasol Cymru

[12] Focus on play - playwork by Play Wales - Issuu

Mae wedi'i sefydlu ers tro bod GCC yn darparu cymorth arbenigol i'r gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant. Y rheswm am hyn yw oherwydd ei rôl yn y gwaith o ddatblygu cymwysterau sy'n meithrin dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn; ei ddealltwriaeth o'r hyn sy'n berthnasol i'r gweithlu o ran cefnogi gofal plant, chwarae, dysgu a datblygu ee ffocws clir ar yr hyn y gallai fod ei angen ar blentyn unigol, boed hynny'n ddatblygiad lleferydd a chyfathrebu iaith; anghenion dysgu ychwanegol ac ati. Mae'r cymorth hwn hefyd yn cynnwys fframwaith cymwysterau ar gyfer y sector; datblygu fframwaith denu a recriwtio Gofalwn Cymru[13] a chyfres o ganllawiau ac adnoddau ar gyfer rheolwyr a gweithwyr mewn meysydd amrywiol fel diogelu; goruchwylio ac arfarnu'n dda a recriwtio – i gyd gyda'r nod o sicrhau gweithlu â chymwysterau, gwerth a chefnogaeth addas.

Y canlyniad a fwriedir o ganlyniad i'r diwygiad hwn yw parhau i gefnogi uchelgeisiau datblygu'r gweithlu ar gyfer y sector – sy'n hanfodol i sicrhau bod gennym weithlu â chymwysterau addas i gefnogi datblygiad ein plant.

Mae'r cynnig hwn yn ceisio cydnabod y gefnogaeth hon yn ffurfiol ac ehangu, dros amser ac o fewn y cyllid sydd ar gael, i gynnwys y gweithlu gwaith chwarae. Mae ymgysylltu wedi digwydd gyda'r cyrff hynny sy'n goruchwylio'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae ac mae eu hadborth wedi cadarnhau'r effaith gadarnhaol y bydd y cymorth hwn yn ei chael ar y gweithlu. Ar ben hynny, cafodd yr holl ddarparwyr gofal plant a gwaith chwarae ledled Cymru eu hannog i ymateb i'r ymgynghoriad a oedd yn ceisio gwneud y diwygiad hwn.

## 3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

Mae'r diwygiad arfaethedig yn ceisio sicrhau bod modd sicrhau cefnogaeth i bawb sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae dros amser. Mae GCC wedi bod yn darparu cymorth i'r gweithlu sector gofal plant cyfan, nid darparwyr a gwarchodwyr plant yn unig (fel yr amlinellir yn y diffiniad yn RISCA). Felly, mae angen sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn adlewyrchu hyn ac yn darparu sail glir ar gyfer y gwaith y byddant yn ei wneud.

| Erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn neu Brotocol Dewisol | Yn gwella (X) | Heriau (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|
| Erthygl 3 - Mae'n rhaid i les pennaf y plentyn fod yn brif flaenoriaeth ym mhob penderfyniad neu weithred sy'n effeithio ar blant. | | | Bydd y cynnig yn helpu i sicrhau bod GCC yn gallu darparu cymorth i bawb sy'n rhan o'r gweithlu gofal plant a chwarae, gan ganolbwyntio ar ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn, o'r adeg |

[13] Hafan | Sut i weithio ym maes gofal cymdeithasol a gofal plant | Gofalwn Cymru

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | dechrau nes cael y cymwysterau, a DPP. Bydd ei safonau ac eDdysgu diogelu yn sicrhau bod pawb ar draws y sector yn gweithio i'r un nodau. |
| Erthygl 6 - Mae gan bob plentyn yr hawl i fywyd. Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu i'w llawn botensial. | | | Gall darpariaeth gofal plant a chwarae o ansawdd uchel gael dylanwad cadarnhaol ar ddatblygiad plentyn a'i helpu i ddatblygu i'w lawn botensial. Bydd y diwygiad hwn yn sicrhau cefnogaeth i bawb sy'n gweithio ym maes gofal plant a chwarae, er enghraifft, drwy ddilyn safonau diogelu cydlynol clir sy'n ymgymryd â hyfforddiant diogelu i helpu i sicrhau bod plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a phriodol. |
| Erthygl 19 – Mae'n rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag pob math o drais, camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth wael gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n gofalu amdanynt. | | | Bydd gwaith GCC yn cynorthwyo pob ymarferydd ledled Cymru i gwblhau hyfforddiant a gwybod sut i ofalu am blant a'u hamddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod |
| Erthygl 28 - Mae gan blant yr hawl i addysg. Rhaid i addysg gynradd fod am ddim a rhaid i wahanol fathau o addysg uwchradd fod ar gael i bob plentyn. Rhaid i ddisgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas a hawliau plant, | | | Mae'r cynnig hwn yn ceisio gwella dysgu proffesiynol ar gyfer y gweithlu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| a pharchu diwylliant eu rhieni, eu diwylliant nhw eu hunain a diwylliannau eraill, a'r amgylchedd.<br><br>Erthygl 31 - Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio, chwarae a chymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol a chelfyddydol. | | | Mae lleoliadau gofal plant a chwarae yn rhoi cyfleoedd i blant chwarae. |

**4. Cyngor i weinidogion a'u penderfyniad**

Bydd y dadansoddiad o'r effeithiau'n cael ei gynnwys mewn cyngor yn y dyfodol i'r Gweinidog, sef y dylai'r broses o weithredu'r diwygiad hwn gael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth gofal plant a gwaith chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc.

**5. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc**

Nid ydym wedi gofyn am farn plant a phobl ifanc ar hyn o bryd gan mai nod y diwygiad hwn yw ceisio sicrhau bod yr holl weithwyr gofal plant a chwarae yn cael eu cydnabod fel gweithwyr gofal cymdeithasol fel y gall cefnogaeth barhau ar gyfer y gweithlu gofal plant a'i hymestyn i'r gweithlu chwarae.

**6. Monitro ac Adolygu**

Byddwn yn parhau i gynnal cyfarfodydd monitro rheolaidd gyda GCC i ystyried sut mae'n cefnogi'r holl weithwyr gofal plant a gwaith chwarae ar draws pob lleoliad. Dros amser, gallai ei waith gynyddu o ran cwmpas, yn dibynnu ar argaeledd, a byddwn yn gweithio'n agos gyda GCC a chyrff cenedlaethol eraill fel Chwarae Cymru i gefnogi a chyflawni unrhyw newid.